



**Un Llais Cymru
One Voice Wales**

Cynghorau Cymuned & Thref Canllawiau Digidol

Cyflawni Gwaith y Cyngor yn Ddigidol

Ionawr 2025

Cynnwys

Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
Meysydd Gweithredol Allweddol	Error! Bookmark not defined.
Cyllid.....	Error! Bookmark not defined.
Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid (CRM)	Error! Bookmark not defined.
Ffurflen a Dogfennau Ar-lein.....	Error! Bookmark not defined.
Ystyriaethau Cyffredinol ar gyfer Gweithgarwch Digidol.....	Error! Bookmark not defined.
Deallusrwydd Artiffisial (AI).....	Error! Bookmark not defined.
Hanes Fersiynau.....	Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad

Gall Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru reoli gwahanol swyddogaethau gweithredol yn effeithlon trwy ddefnyddio offerynnau ac arferion digidol electronaidd, yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Mae'r ddogfen hon yn cynnig awgrymiadau ar gyfer meysydd lle y gallai cynghorau ddefnyddio dulliau digidol. Mae hefyd yn amlinellu ystyriaethau ar gyfer defnyddio'r offerynnau Deallusrwydd Artiffisial sydd newydd gael eu datblygu.

Meysydd Gweithredol Allweddol

Cyllid

Cyhoeddi Cyfrifon yn Electronaidd: Mae gan gynghorau ddyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi eu canlyniadau archwilio blynyddol electronaidd trwy eu gwefan. Mae hynny'n creu'r disgwyliad fod cofnodion ariannol yn cael eu rheoli'n ddigidol, ac mae anogaeth glir i gyhoeddi'r canlyniadau.

Meddalwedd Rheolaeth Ariannol: Awgrymir y dylai cynghorau osod meddalwedd rheolaeth ariannol ar gyfer gwaith cadw cofnodion, cyllidebu ac olrhain gwariant effeithlon. Cafodd nifer o gynhyrchion a llwyfannau masnachol eu datblygu'n benodol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Ar gyfer cynghorau llai gyda gweithrediadau symlach, mae rheoli cyllidebau trwy offeryn taenlen megis Microsoft Excel yn ddewis hyfyw. Mae trefn felly yn sicrhau bod yr holl drafodiadau ariannol yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n ddigidol.

Mae bancio ar-lein yn galluogi cynghorau i symleiddio trafodiadau, taliadau, a rheoli incwm. Mae rheolaeth ariannol effeithlon yn golygu fod rhaid adolygu a chymeradwyo prosesau ar gyfer yr holl incwm a gwariant mewn ffordd briodol.

Adrodd Tryloyw: Dylai gwybodaeth ariannol fod ar gael yn hwylus ar wefan y cyngor. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y canlyniadau archwilio a'r cyfrifon blynyddol, ond hefyd efallai ddiweddariadau rheolaidd ar y gyllideb, a manylion am unrhyw wariant yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor. Rhaid i gynghorau ofalu fod unrhyw systemau ariannol a ddefnyddiant yn gydnaws â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid (CRM)

Gwybodaeth Gyswilt Ganoledig: Rhaid i gynghorau gyhoeddi cyfeiriad e-bost generig, rhif ffôn, a chyfeiriad post. Dylid monitro'r rhain yn gyson, a dylid gweithredu'n brydlon ar geisiadau. Gallai system CRM helpu rheoli ymholiadau o'r gymuned, tracio cyfathrebiadau, a sicrhau ymatebion prydlon.

Ffurflenni ar Wefannau: Gall pobl leol ddefnyddio ffurflenni ar-lein ar wefan y cyngor i gyflwyno ceisiadau, rhoi gwybod am broblemau, a chynnig adborth. Gallai'r rhain gael eu cysylltu â system CRM er mwyn olrhain ceisiadau nes iddynt gael eu cwblhau.

Diogelu Data: Rhaid i unrhyw system fodloni gofynion diogelu data gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018.

Ffurflen a Dogfennau Ar-lein

Ffurflenni Cais Ar-lein: Gall cynghorau ddarparu ffurflenni cais ar-lein ar gyfer grantiau neu ar gyfer unrhyw wasanaethau maen nhw'n eu darparu. Gallai hynny gynnwys cyfleusterau llogi a gwneud cais am grantiau neu gyllid lleol. Dylai ceisiadau am grantiau a gwasanaethau alluogi pobl i gyflwyno dogfennau ategol yn electronaidd.

Ystyriaethau Cyffredinol ar gyfer Gweithgarwch Digidol

Hyfforddiant: Darparu hyfforddiant rheolaidd i aelodau a staff y cyngor ar ddefnyddio offerynnau a llwyfannau digidol. Bydd hyn yn helpu gwella eu hyder a'u cymhwysedd.

Diogeledd: Cymryd camau diogeledd priodol i ddiogelu'r holl systemau a data electronaidd.

Hygyrchedd: Dylid gofalu fod yr holl ddatrysiadau digidol yn hygyrch i bawb, waeth beth yw eu sgiliau technegol neu unrhyw anabledau.

Rhaid i'r holl ddatrysiadau digidol gydymffurfio'n gaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Deddfau Llywodraeth Leol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a rheoliadau diogelu data. Hefyd, dylid ystyried Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Adolygu Rheolaidd: Dylid adolygu strategaethau ac offerynnau digidol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion esblygol y cyngor a'r gymuned.

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae datblygiadau diweddar mewn Deallusrwydd Artiffisial (AI) wedi cael cryn ddylanwad ar weinyddiaeth gyhoeddus a gallent gael eu hystyried gan gynghorau cymuned bychain hyd yn oed.

Mae'r prif ddatblygiadau'n cynnwys gwell offerynnau dadansoddi data dan arweiniad AI, sgwrsfotiau soffistigedig, offerynnau AI cynhyrchiol ar gyfer llunio a golygu dogfennau a gwell fframweithiau moeseg AI.

Gall cynghorau cymuned yng Nghymru fanteisio ar y datblygiadau AI hyn i wella eu heffeithlonrwydd gweithredol ac ymgysylltu â'r gymuned. Gall offerynnau AI helpu gyda dadansoddi data, a galluogi cynghorau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus yn seiliedig ar ddata cynhwysfawr o'r gymuned. Gellid defnyddio sgwrsfotiau ar wefannau cynghorau i ymateb i gwestiynau a ofynnir yn aml a

chyfeirio pobl at wybodaeth hanfodol, gan wella'r gwasanaethau a ddarperir. Gall rôl AI wrth reoli dogfennau a chreu cynnwys gwefannau helpu hefyd i symleiddio tasgau gweinyddol.

Er mwyn sicrhau defnydd moesegol, mae'n rhaid i gynghorau gadw at reoliadau tryloywder a diogelu data. Mae hyfforddiant rheolaidd i staff a chynghorwyr ar gymwysiadau AI yn hanfodol er mwyn cael y gorau allan ohonynt a deall eu heffaith bosib ar waith y cyngor. Trwy integreiddio AI yn effeithiol, gall cynghorau cymuned weithio'n fwy tryloyw ac effeithlon, a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chymunedol.

Hanes Fersiynau

	Dyddiad	Cyhoeddwr	Rheswm	Dyddiad Adolygu
V1	30/1/25	Justin Horrell	Fersiwn Gychwynnol	30/1/26



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government